Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen

Datganiad polisi

CYMRAEG

Byw Dysgu Mwynhau

Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen

Datganiad polisi

Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

Camau i'w cymryd

Partïon â diddordeb i nodi cynnwys y datganiad polisi ac i weithredu'n unol â hynny.

Trosolwg

Mae'r datganiad polisi hwn yn adeiladu ar ein strategaeth, *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–2017* (Llywodraeth Cymru, 2012) ac yn gosod ein hamcanion polisi o ran y Gymraeg ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned y Gymraeg
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1307
e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn
www.cymru.gov.uk/ygymraeg

Dogfennau cysylltiedig

Rhaglen Lywodraethu 2011–16 (Llywodraeth Cymru, 2011); *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–2017* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Mesur y Gymraeg* (Cymru) 2011; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

ISBN digidol 978 1 4734 1873 8
© Hawlfraint y Goron Awst 2014
WG22701

Cynnwys

Rhagair	**2**
Cyd-destun	**4**
Am y ddogfen hon	**5**
1. Y Gymraeg a'r economi	**6**
2. Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg	**12**
3. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	**16**
4. Newid ymddygiad ieithyddol	**21**
Symud y polisi yn ei flaen	**24**

Rhagair

Mae'r Gymraeg wrth galon ein hunaniaeth Gymreig fodern. Mae ei hanes yn un rhyfeddol. Mae'r ffaith ein bod ni, yn yr unfed ganrif ar hugain, yn gallu mwynhau bywyd teuluol, addysgol, gwaith a hamdden i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn dyst i bwysigrwydd yr iaith i bobl Cymru. Yn ystod fy oes innau mae wedi dod i gael ei gweld yn gynyddol fel rhan annatod o dreftadaeth Cymru gyfan, a hynny ar draws y sbectrwm wleidyddol. Nid oes neb bellach yn hawlio fod ganddynt fonopoli ar gariad at yr iaith: mae'n perthyn i bob un ohonom sydd ag ewyllys da tuag ati.

Mae datganoli ynddo'i hun wedi rhoi hwb pwysig i'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus. Ar draws nifer o feysydd cyhoeddus a phroffesiynol – llywodraeth, addysg, chwaraeon, y cyfryngau a'r gyfraith – mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn well nag erioed. Y teulu yw'r sylfaen o hyd ar gyfer trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r llall, tra bod ein hysgolion yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn opsiwn ymarferol a byw i filoedd na fyddai fel arall wedi cael y dewis.

Er bod stori gadarnhaol i'w hadrodd, mae hefyd yn wir bod heriau gwirioneddol i'w goresgyn os yw'r Gymraeg am barhau a ffynnu yn y tymor hir. Nid oes lle i laesu dwylo. Dros y degawd nesaf rhaid i ni ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 ac anelu at gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a'r defnydd cyffredinol a wneir ohoni.

Mae *Iaith fyw: iaith byw* (Llywodraeth Cymru, 2012), strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg 2012–17, eisoes ar waith. Bwriad y datganiad hwn yw nodi'r hyn y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y tair blynedd hollbwysig nesaf.

Yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae gan yr iaith statws swyddogol yng Nghymru ac mae'n eistedd o fewn fframwaith deddfwriaethol. Bydd y safonau arfaethedig cyntaf a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, y parciau cenedlaethol, a Gweinidogion Cymru i hybu'r Gymraeg. Bydd y safonau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau asesu effaith eu penderfyniadau polisi ar yr iaith. Bydd Comisiynydd y Gymraeg a Thribiwnlys y Gymraeg yn helpu i weithredu a gorfodi'r safonau a darparu mecanwaith apeliadau.

Rydym yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg a chreu'r amgylchiadau er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Yn y cartref ac mewn ysgolion, colegau a gyda busnesau, yn y trydydd sector ac mewn hamdden – dylai fod yn bosib defnyddio'r Gymraeg ar draws yr ystod lawn o sefyllfaoedd dyddiol arferol.

Fe wnes i wrando ar eich syniadau yn ystod Y Gynhadledd Fawr a chreodd yr hyn a glywais i gryn argraff arnaf. Petai angerdd a brwdfrydedd yn unig yn gallu rhoi'r atebion, ni fyddai unrhyw gwestiwn ynghylch dyfodol y Gymraeg. Ond mae angen mwy na hynny. Mae angen inni ddatblygu polisïau cadarn ac ymarferol sydd wedi'u selio ar y llu o syniadau a'r creadigrwydd sydd ar waith ar draws Cymru.

Rhoddodd Y Gynhadledd Fawr bwyslais penodol ar y Gymraeg yng nghyd-destun yr economi yn ogystal â'r gymuned. Rwy'n argyhoeddedig fod hon yn sialens ganolog. Bu i'r arolwg diweddar ar anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector ganfod bod ond 4 y cant o gyflogwyr yn y sectorau hynny wedi chwilio am wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth ar faterion a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle yn ystod y ddwy i dair blynedd diwethaf. Mae hynny'n siomedig a rhaid i ni wneud mwy i ddarbwyllo busnesau o werth defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn dechrau'r sialens hon drwy dargedu trefi penodol sy'n gwasanaethu cymunedau Cymraeg yn y gogledd a'r de-orllewin.

Mae'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg yn anodd a chymhleth. Byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r heriau yn seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn ymddangos a byddwn yn parhau i groesawu syniadau arloesol a ffres. Yma yn y llywodraeth rydym yn derbyn ein rhan yn yr her ac yn disgwyl i'n partneriaid ar draws Cymru ein hefelychu. Ni ddylai unrhyw un sy'n pryderu am ddyfodol yr iaith gredu mai mater i'r llywodraeth yn unig ydyw. Mae deddfwriaeth a rheoleiddio yn bwysig ond rydym angen llawer mwy na hynny. Rydym angen ymroddiad, dychymyg ac egni o bob cwr. Dyma'r amser i weithredu.

Carwyn Jones AM
Prif Weinidog Cymru

Cyd-destun

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw i weld y Gymraeg yn iaith fyw sy'n ffynnu. Cyhoeddwyd Strategaeth y Gymraeg 2012–17 – *Iaith fyw: iaith byw* ym mis Mawrth 2012 fel strategaeth pum mlynedd ac rydym yn ymrwymedig i arwain y gwaith o wireddu'r weledigaeth sydd ynddi.

Mae'r strategaeth, sydd wedi ei rhannu'n chwe maes strategol, yn bodoli ochr yn ochr â'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) er mwyn darparu amrywiaeth o fesurau i hyrwyddo cynnydd mewn **caffael** a **defnyddio'r iaith**.



Mae'r strategaeth yn nodi ein dymuniad i weld:

- cynnydd yn y nifer o bobl sy'n siarad yr iaith ac sy'n ei defnyddio
- rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith
- mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgil defnyddiol mewn bywyd modern
- cryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau
- lle amlwg i'r Gymraeg ar draws y cyfryngau digidol.

Rydym yn ymrwymedig i weithredu'r strategaeth ac i wireddu'n gweledigaeth.

Am y ddogfen hon

Bwriad y datganiad polisi hwn yw i osod ein ffocws dros y dair blynedd nesaf wrth inni barhau i weithredu'r strategaeth. Mae'r datganiad hwn yn cymryd i ystyriaeth nifer o ddatblygiadau ers inni gyhoeddi'r strategaeth yn 2012. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol.

- Canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar y Gymraeg a gyhoeddwyd yn raddol ers mis Rhagfyr 2012.
- Y sgwrs genedlaethol a gynhaliwyd ar y Gymraeg, Y Gynhadledd Fawr, a ymgymrwyd gan y Prif Weinidog yn ystod haf 2013 mewn ymateb i ganlyniadau'r Cyfrifiad.
- Cyhoeddi adroddiadau gan grwpiau amrywiol a sefydlwyd i gynnal adolygiadau polisi ar gymunedau Cymraeg, datblygiad economaidd a'r iaith Gymraeg, dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, Cymraeg i oedolion a'r Eisteddfod Genedlaethol.
- Yr adroddiad allanol a gomisiynwyd yn ymchwilio i ddefnydd iaith siaradwyr Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.
- Yr adolygiad allanol a gomisynwyd o waith y Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman-Tawe.

Yng ngoleuni'r uchod, rydym wedi adnabod pedair thema i ganolbwyntio arnynt am y tair blynedd nesaf.

1. Yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr economi a'r Gymraeg.
2. Yr angen am gynllunio strategol gwell ar gyfer y Gymraeg.
3. Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
4. Yr her o newid ymddygiad ieithyddol.

1. Y Gymraeg a'r economi

Mae'r adran hon yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu'r amgylchedd gorau posibl er mwyn meithrin twf y Gymraeg a datblygiad economaidd wrth i'r naill hybu'r llall. Mae'n cydnabod bod twf economaidd, swyddi a chreu cyfoeth a lles y Gymraeg yn mynd law yn llaw â'i gilydd, a bydd yn ysgogiad i helpu busnesau i fanteisio ar y gydberthynas hon. Mae'n sôn hefyd am sut rydym am barhau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr economi ddigidol.

Ers 2011, rydym wedi:

- comisiynu a derbyn adroddiad gan grŵp gorchwyl a gorffen ar y cysylltiadau rhwng y Gymraeg a datblygiad economaidd
- cynnal y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio i fusnesau: 'Cymraeg – Brand Busnes' er mwyn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i fusnesau
- cyhoeddi cynllun gweithredu er mwyn datblygu'r defnydd o Gymraeg mewn technoleg a chyfryngau digidol, gan fuddsoddi bron i £450,000 mewn 15 o brosiectau.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn:

- buddsoddi hyd at £400,000 mewn prosiectau penodol ym meysydd cymorth i fusnesau, ymchwil, marchnata a llywodraethu er mwyn:
  - datblygu prosiect peilot i roi prawf ar ddull o wella sut caiff gwasanaethau busnes eu darparu yn Nyffryn Teifi, gan gynnwys cymorthfeydd busnes Cymraeg a Chronfa i Gefnogi Busnesau Bach a Chanolig Cymraeg
  - comisiynu ymchwil i ddeall yn well yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag defnyddio gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli eisoes; a sut gellir gwneud gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli ac a ddatblygir yn y dyfodol yn fwy hwylus i fusnesau eu defnyddio
  - codi ymwybyddiaeth i berswadio busnesau ynghylch manteision y Gymraeg, a gwneud mwy i farchnata manteision gweithredu'n ddwyieithog, gan gynnwys parhau i gynnal digwyddiadau rhwydweithio i fusnesau; a diwygio ymgyrch farchnata Busnes Cymru
  - adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth grwpiau cynghori sy'n rhoi sylw yn bennaf i'r economi er mwyn sicrhau fod y Gymraeg a'u buddion yn ystyriaeth yn ystod eu trafodaethau
- sicrhau bod gwell alinio rhwng y Gymraeg a rhaglenni hyrwyddo sgiliau Llywodraeth Cymru, ac ysgogi hyfforddiant a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a hyfforddiant i ddysgu Cymraeg
- ystyried datblygu cymorth i fusnesau i hwyluso datblygiad economaidd yn y bröydd Cymraeg, ar sail y gwersi y byddwn yn eu dysgu o brosiect Dyffryn Teifi
- cydweithio â sefydliadau masnachol a chyrff academaidd i hwyluso'r gwaith o ddatblygu adnoddau iaith digidol newydd, fel geiriaduron, adnoddau dadansoddi testun, technolegau lleferydd ac adnoddau cyfieithu sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Un o'r pethau ddaeth drwodd gryfaf yn ystod Y Gynhadledd Fawr oedd bod angen cynyddu gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer gwaith, bod angen cynyddu'r gwerth economaidd a roddir ar y Gymraeg, a chryfhau economïau ardaloedd traddodiadol-Gymraeg gogledd a gorllewin Cymru.

Cydnabu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygiad Economaidd botensial y Gymraeg a dwyieithrwydd i gefnogi twf busnes, yn ogystal â photensial datblygu economaidd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a galwodd am gefnogaeth ychwanegol yn lleol i helpu i wneud hyn. Mae'r adran hon yn rhoi cipolwg ar ganlyniadau gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw. Mae ymateb llawn gan y llywodraeth i'r adroddiad yn disgrifio'n fanylach yr holl gamau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod yr agenda hon yn cael ei gweithredu.

Derbyniodd y grŵp ymatebion o bob math ar y cymorth sydd ar gael i fusnesau bach sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Pwysleisiwyd yr angen i feithrin agwedd gadarnhaol gan fusnesau yn hytrach na'u gorfodi i ddefnyddio'r iaith. Yn hynny o beth, awgrymwyd mai'r gefnogaeth fwyaf gwerthfawr fyddai cymorth ymarferol mewn perthynas ag ystod o sefyllfaoedd fel cost cyfieithu dogfennau, arwyddion, ac ati.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i adroddiad y grŵp, byddwn yn buddsoddi hyd at £400,000 mewn prosiectau penodol yn y meysydd canlynol: cymorth i fusnesau, ymchwil, marchnata a llywodraethu.

Cymorth i fusnesau

Y llynedd, aeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi ati i archwilio sut y gellid defnyddio'r model ardal twf lleol yn Nyffryn Teifi. Gofynnwyd i'r grŵp ystyried opsiynau polisi i annog a chefnogi swyddi, twf economaidd ac i roi prawf ar wahanol ymyriadau sy'n sensitif i'r amgylchiadau economaidd, yr heriau o ran twf, a'r defnydd iaith yn y Dyffryn.

Cydnabu'r grŵp werth a photensial yr iaith i gefnogi'r economi leol, a galwodd am gefnogaeth ychwanegol i helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Cynigir cynnal prosiect peilot i ddatblygu dull mwy rhagweithiol o ddarparu gwasanaethau busnes yn Nyffryn Teifi. Bydd y peilot yn archwilio ac yn asesu'r ddarpariaeth bresennol a'r rhwystrau sy'n atal y galw am wasanaethau Cymraeg a'r defnydd ohonynt, a hynny trwy gyfrwng cyfres o gymorthfeydd a chefnogaeth wedi'i dargedu i fusnesau lleol. Byddwn yn adolygu'r cynllun peilot hwn, a bydd yn sylfaen ar gyfer cyflwyno'r dull yn ehangach mewn rhannau eraill o Gymru.

Bydd y cynllun peilot yn rhoi prawf ar:

- y cysyniad o gymorthfeydd busnes Cymraeg er mwyn edrych ar y gwasanaethau Cymraeg sy'n bodoli eisoes yn ogystal â chanolbwyntio ar ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg er mantais economaidd. Drwy'r cymorthfeydd hyn, byddai busnesau Dyffryn Teifi yn gallu gweld sut i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael i ddatblygu eu gweithgarwch Cymraeg, a manteisio ar Gronfa i Gefnogi Busnesau Bach a Chanolig Cymraeg
- sut bydd y Gronfa i Gefnogi Busnesau Bach a Chanolig Cymraeg, os bydd yn agored i'r rheini a gyfeirir ati drwy'r cymorthfeydd, yn gweithredu er mwyn helpu'r Busnesau Bach a Chanolig yn Nyffryn Teifi i allu elwa ar y cyfleoedd a ddaw o ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu busnesau. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys deunyddiau marchnata, brandio, arwyddion, e-alluogi gwerthiannau drwy wefannau dwyieithog/Cymraeg, ac ati.

Ymchwil

Nid yw'r sylfaen dystiolaeth ynghylch y Gymraeg a'r economi yn un gref, ac mae angen rhagor o waith i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

I gychwyn, byddwn yn archwilio pam mae'r nifer sy'n defnyddio ein gwasanaethau cymorth i fusnesau trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel o'u cymharu â nifer y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth, yn ogystal â pha ddulliau allai annog rhagor o ddefnydd ohonynt. Bydd yr ymchwil cychwynnol yn clustnodi'r rhwystrau sy'n atal siaradwyr Cymraeg rhag defnyddio cymorth Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu i'w gwneud yn haws iddynt ddefnyddio'r rhaglenni yn y dyfodol, ac yn canfod pam nad yw siaradwyr Cymraeg yn defnyddio cymorth y llywodraeth ar gyfer sefydlu neu dyfu busnes.

Marchnata

Mae'n bosibl bod diffyg ymwybyddiaeth o'r sianeli Cymraeg presennol yn esbonio pam nad oes llawer o ddefnydd ar y gwasanaethau hyn. Nod yr ymchwil a grybwyllir uchod fydd taflu rhywfaint o oleuni ar y rhesymau dros hyn, ond byddwn yn archwilio beth arall y gellir ei wneud nawr i hyrwyddo'r ffaith bod y gwasanaethau hyn ar gael yn ddwyieithog.

Byddwn hefyd yn ystyried sut all y Mentrau Iaith hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfeirio cleientiaid at Siop Un Stop Busnes Cymru neu drwy gyfrannu at y newidiadau llywodraethu a amlinellwyd uchod. Mae yna fusnesau sy'n llwyddo i fanteisio ar y Gymraeg ac sy'n batrwm enghreifftiol i'w cyfoedion. Gwelwyd hyn ar waith yn y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio i fusnesau a gynhaliwyd gennym yn ddiweddar, sef Cymraeg – Brand Busnes. Byddwn yn parhau i gynnal digwyddiadau o'r fath ledled Cymru.

Llywodraethu

Ar hyn o bryd rydym yn elwa ar arbenigedd a phrofiad nifer o grwpiau cynghori, er enghraifft, byrddau ardaloedd menter, paneli sector a grwpiau gorchwyl a gorffen. Ni roddwyd y dasg i'r grwpiau hyn ystyried y Gymraeg, ond bydd gofyn iddynt wneud hynny yn y dyfodol.

Byddwn yn mynd ati ar unwaith i adolygu cylchoedd gorchwyl y grwpiau hyn a, lle bo'n briodol, byddwn yn eu diwygio i adlewyrchu ein hymrwymiad i elwa ar fanteision economaidd y Gymraeg. Byddwn hefyd yn ystyried cryfhau aelodaeth y grwpiau hyn i'w galluogi i gynghori ar y Gymraeg.

Gweithredu yn ôl ardal – cefnogi economi ardaloedd Cymraeg

Gofynnwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd hefyd i archwilio sut allai'r Gymraeg a dwyieithrwydd gefnogi datblygu economaidd, a sut allai datblygu economaidd yn ei dro helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn natblygiad economaidd trefi fel Caerfyrddin, Aberystwyth a Bangor a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac mae'n deall bod yn rhaid i unrhyw ddatblygu yn y dyfodol ddigwydd law yn llaw â chynllunio ieithyddol. Mae cynnal a datblygu'r Gymraeg o fewn economïau trefi'r prif brifysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau gogledd a gorllewin Cymru yn rhan bwysig o'r ymdrech i annog pobl i ddefnyddio'r iaith yn yr ardaloedd hynny.

Mae adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gymunedau Cymraeg yn cadarnhau hyn ac yn nodi bod llawer yn symud o'r ardaloedd traddodiadol-Gymraeg hyn i ddinasoedd fel Caerdydd. Mae hyn yn golygu bod cymunedau yn colli rhai sy'n hyderus yn y Gymraeg yn ogystal â'r rheini a allai fod wedi bod yn arweinwyr cymunedol a masnachol.

Mae'n flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru gefnogi'r cymunedau hyn yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd lle mae nifer y siaradwyr yn tyfu. Yn sicr, mae'r sefyllfa economaidd, a'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn benodol, yn ffactor bwysig wrth i siaradwyr Cymraeg adael eu cymunedau ac, yn wir, Cymru. Byddai llawer o'r rhain wedi gallu bod yn arweinwyr busnes a chymunedol a allai fod wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yng nghymunedau Cymru. Mae angen inni sicrhau bod y cymunedau hyn yn ffynnu ac yn llefydd y mae pobl am fyw ynddynt a symud yn ôl iddynt.

Sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle

Roedd yr angen i gynyddu gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle ledled Cymru yn thema gyson, mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygiad Economaidd ac yn Y Gynhadledd Fawr. Yr her yw bod y niferoedd sy'n gallu siarad yr iaith yn bositif, ond nad yw'r niferoedd hyn yn ei defnyddio, yn enwedig yn y gweithle. Nodwyd yr angen i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol ym mhob agwedd ar fywyd y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau i gwsmeriaid, fel un o amcanion polisi Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg.

Mae'r *Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau* (Llywodraeth Cymru, 2014) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cadarnhau unwaith eto ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarpariaeth Gymraeg yn ogystal â chefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd yr adroddiad diweddar ar yr anghenion o ran sgiliau Cymraeg ar draws sectorau economaidd allweddol hefyd yn tynnu sylw at y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg yn y gweithle ac o fewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwnnw a sut y gellir ei defnyddio i roi'r cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau ar waith.

Cydnabyddir bod datblygu sgiliau iaith a meithrin hyder pobl yn allweddol i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd economaidd ac o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd o bob math. Daeth tystiolaeth i law o ymchwil anghenion sgiliau iaith yn dangos bod diddordeb o blith busnesau i gael staff oedd yn siarad Cymraeg, ac mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd i fanteisio ar yr ewyllys da hwn.

Astudiaeth achos – Banc NatWest

Mae canghennau o NatWest yn y gogledd-ddwyrain yn cynnig gwersi Cymraeg i'w staff er mwyn gwella'r ddarpariaeth i gwsmeriaid. Datblygwyd y cwrs Cymraeg i fanciau mewn partneriaeth â Choleg Cambria. Cydnabyddir y staff sy'n dilyn y cwrs drwy roi tystysgrif sgiliau'r gweithle iddynt, a ddyfernir drwy Brifysgol Bangor, ac mae'r staff hefyd wedi nodi effaith bositif y buddsoddiad a'r gydnabyddiaeth a roddir i'r rheini sy'n cymryd rhan.

Mae'r staff wedi nodi bod y cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'n fawr eu bod yn gwneud yr ymdrech i ddarparu gwasanaeth dwyieithog a'i fod yn gwella'r berthynas rhyngddynt ar lefel un-i-un. Mae nifer o gwsmeriaid yn teithio gryn bellter i ganghennau penodol er mwyn cael gwasanaeth Cymraeg.

Y Gymraeg a'r economi ddigidol

Yn wyneb y cynnydd mewn cyfryngau digidol, mae'n bwysig ein bod yn harneisio'r technolegau hyn er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fodern. Mae sicrhau bod y dechnoleg ddiweddaraf a chyfryngau digidol ar gael mewn unrhyw iaith fach yn heriol. Mae'r dirwedd dechnolegol yn newid yn gyflym, a chaiff siaradwyr Saesneg eu gwasanaethu'n dda gan y farchnad. Bu darbwyllo cwmnïau mawr i gynnig darpariaeth mewn ieithoedd llai eu defnydd megis y Gymraeg yn anodd, gyda rhai eithriadau clodwiw.

Mae yna risgiau amlwg os nad yw'r ddarpariaeth Gymraeg o dechnoleg a ddefnyddir bob dydd yn cadw i fyny â'r Saesneg. Bydd siaradwyr Cymraeg yn defnyddio llai o Gymraeg yn eu bywydau bob dydd wrth i dechnoleg Saesneg dreiddio'n ddyfnach i'n bywydau nag ydyw yn barod. Mae'r cartref yn gynyddol debygol o fod wedi'i awtomeiddio, a bydd offer cartref yn derbyn gorchmynion llais. Rydym eisoes yn gallu anfon negeseuon testun ac e-byst o'n ffonau trwy gyfleuster adnabod llais yn Saesneg. Mae'n bosibl bod awduro rhagfynegol, lle y gall dyfais ragweld yr hyn y byddwn yn ei ysgrifennu neu'n ei ddweud nesaf, a thrwy hynny arbed amser, ar fin dod yn boblogaidd iawn. Mae'r ffaith nad yw'r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg eto yn cyfrannu ymhellach at wanhau statws yr iaith, ac yn cyfrannu at ganfyddiad negyddol o'r Gymraeg fel iaith sy'n perthyn i'r gorffennol, yn hytrach nag i'r dyfodol. Mae symud gyda'r oes o ran datblygiadau technolegol yn un o'n prif heriau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael peth llwyddiant yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu ein Cyfryngau Digidol Cymraeg a'r Gronfa Technoleg. O ganlyniad, mae ystod o brosiectau defnyddiol a newydd wedi'u datblygu megis rhaglenni casglu cynnwys, llwyfannau adrodd lleol, a rhyngweithio wyneb-yn-wyneb.

Rydym yn cydnabod y gwerth o ddysgu gwersi gan ieithoedd mewn sefyllfa gymdeithasol-ieithyddol debyg i ni. Ym maes technoleg byddwn yn rhoi pwyslais mawr ar addasu, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau technolegol: mae'n bosibl bod modd addasu'r hyn sydd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer un iaith yn haws ac yn gyflymach i'r Gymraeg na chreu rhywbeth o'r newydd. Dyma pam y byddwn yn gweithio gyda rhwydweithiau rhyngwladol perthnasol i ganfod beth yw'r datblygiadau diweddaraf mewn gwledydd eraill. Drwy'r rhwydweithiau hynny, a thrwy ein gweithgareddau ein hunain, byddwn yn lobïo ac yn gweithio gyda chorfforaethau rhyngwladol i wneud darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Rydym yn pwysleisio ein bwriad i wneud y defnydd gorau o'n buddsoddiad yn yr iaith. Rydym yn

cydnabod yr angen i ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau technoleg iaith a chydrannau lle bynnag y bo modd. Ein nod yw i gymaint â siaradwyr Cymraeg â phosibl elwa ar ein buddsoddiadau mewn technoleg. Byddwn yn ystyried pa drwydded agored sy'n briodol i bob technoleg iaith yr ydym yn buddsoddi ynddi, fel y gellir ailddefnyddio'r adnoddau technoleg iaith rydym yn talu amdanynt er budd yr holl siaradwyr a datblygwyr technoleg Cymraeg.

Ein blaenoriaethau yw:

- gweld adnoddau iaith yn datblygu ymhellach megis geiriaduron o dan drwydded agored ar gyfer eu hailddefnyddio mewn rhaglenni eraill
- offer dadansoddi testun, e.e. dadansoddi semantig awtomatig, parswyr a pheiriannau tagio
- technolegau lleferydd, h.y. teipio lleferydd-i-destun
- ailddefnyddio cyfieithiadau, cyfieithu peirianyddol ac awtomeiddio cyfieithu ar gyfer ôl-olygu a rheoli ansawdd gan fodau dynol, fel y gellid gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg.

Nid yw datblygu adnoddau yn unig yn ddigon. Nid yw ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau yn ddigon. Mae angen hefyd i fwy o bobl ddefnyddio'r hyn sydd ar gael yn barod. Mae llawer o raglenni cyfrifiadurol a gwefannau o bob math â rhyngwynebau Cymraeg, ond hyd yn oed lle mae'r ddarpariaeth eisoes yn bodoli, nid yw'n cael ei defnyddio i'w llawn botensial. Efallai bod y rhesymau am hyn yn amrywio. Efallai bod rhai yn ddihyder o ran ansawdd y cynnwys. Efallai y bydd rhai yn ofni bod y Gymraeg a ddefnyddir yn rhy gymhleth. Gall rhai ofni technoleg. Mae angen inni archwilio'r rhwystrau hyn a datblygu strategaethau ar gyfer newid ymddygiad fel rhan o'n hymateb.

Astudiaeth achos – modiwl Hunaniaith/Sgiliaith

Drwy grant Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg, comisiynwyd Sgiliaith gan Hunaniaith yn ddiweddar er mwyn datblygu modiwl ar-lein i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith myfyrwyr addysg bellach fel sgil byd gwaith ac i'r rheini sydd am weithio iddynt eu hunain, a hynny drwy Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r modiwl yn cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg fel sgil, ffeithiau a ffigurau am y Gymraeg a dwyieithrwydd a chlipiau fideo o gyfweliadau â phobl fusnes ac uwch reolwyr sy'n hyrwyddo pwysigrwydd gweithlu sy'n gallu siarad Cymraeg.

Gofynnir i fyfyrwyr ateb cyfres o gwestiynau fel rhan o'r modiwl, fel y gallant fesur ar raddfa o 1 i 10 beth yw lefel eu sgil, eu hagwedd a'u parodrwydd i ddefnyddio'r iaith. Hyd yma, mae 71 o fyfyrwyr wedi cwblhau'r modiwl, ac ar ôl ei gwblhau nododd 57 y cant eu bod am barhau â'u hastudiaethau drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog, roedd 97 y cant o'r farn bod y Gymraeg o fantais i ddod o hyd i waith yng Nghymru; ac roedd 94 y cant yn credu ei bod yn bwysig cynnig gwasanaeth Cymraeg i gwsmeriaid.

2. Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg

Mae'r adran hon yn disgrifio'r her ar gyfer sicrhau lle mwy amlwg i'r Gymraeg o fewn agenda'r llywodraeth ac agendâu awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwbl allweddol ar gyfer cyflawni'r newid sylweddol hwn. Bydd pontio'r bwlch rhwng addysg a'r gweithlu drwy gynnwys y Gymraeg yn ein rhaglenni sgiliau hefyd yn bwysig iawn.

Ers 2011 rydym wedi:

- penodi Comisiynydd y Gymraeg
- paratoi'r set gyntaf o safonau'r Gymraeg
- cynnwys iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn nod lles ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- deddfu er mwyn sicrhau sail statudol i'r gwaith o gynllunio'r Gymraeg mewn addysg
- cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o TAN 20 a dosbarthu canllawiau ymarfer newydd yn ei gylch ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn:

- sefydlu cronfa buddsoddi gwerth £1.25 miliwn a fydd wedi'i thargedu'n benodol at gefnogi datblygiad canolfannau a/neu ofodau dysgu all hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi'r Gymraeg drwy gystadleuaeth a fydd yn cynhyrchu syniadau ac egni newydd
- sicrhau bod iaith Gymraeg sy'n ffynnu wrth wraidd Cymru gynaliadwy drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- parhau â'r broses o lunio rheoliadau ar gyfer creu safonau'r Gymraeg a fydd yn benodol gymwys i sefydliadau, gan ddechrau gyda Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol
- cryfhau strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso'r gwaith o brif ffrydio'r iaith ar draws pob adran
- cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r camau y disgwyliwn iddynt eu cymryd i hybu'r Gymraeg
- parhau i bwyso a mesur pob cam ymarferol ar gyfer atgyfnerthu'r Gymraeg o fewn y system gynllunio
- parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cynllunio'r modd y maent yn darparu ar gyfer y Gymraeg o fewn y system addysg
- gwella'r dull o ddarparu pwyntiau mynediad hwyr i addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog ar draws Cymru
- gwella'r modd y caiff darpariaeth Gymraeg ei chynllunio mewn addysg a gofal plant cyn ysgol.

Un o'r heriau allweddol yw troi ewyllys da tuag at yr iaith yn weithredu pendant. Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod Y Gynhadledd Fawr, a thrwy gyfrwng yr adolygiadau polisi manwl a gynhaliwyd dros y ddwy flynedd diwethaf, yn dangos bod gormod o gyfleoedd yn cael eu colli i greu'r amgylchiadau i ganiatáu i'r Gymraeg ffynnu.

Rhaid i lywodraeth a chymdeithas ddinesig yng Nghymru ymgorffori egwyddorion cynllunio ieithyddol yng nghynllunio strategol y brif ffrwd. Rydym am i arweinwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am y Gymraeg ac i'r gwaith o hybu'r iaith fod mor ganolog i ddatblygiad economaidd ag ydyw i weithgareddau diwylliannol.

Buddsoddiad mewn canolfannau a gofodau dysgu

Gan fod pwyslais cynyddol ar yr angen i chwilio am ddulliau blaengar o ariannu prosiectau cymunedol, rydym yn bwriadu creu cronfa fuddsoddi er mwyn datblygu a chefnogi canolfannau a mannau dysgu newydd a fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi yn y Gymraeg. Caiff y cyllid gwerth £1.25 miliwn ei sianelu drwy awdurdodau lleol, colegau a phrifysgolion a fydd yn gallu dangos dull arloesol a phwyslais ar gydweithio mewn partneriaeth ag eraill er lles y gymuned ehangach. Bydd y cyllid hwn yn gymorth i sefydlu prosiectau strategol a fydd yn rhoi hwb i'r agenda bolisi hon, gyda phwyslais ar ddarparu sylfaen i brosiectau cymunedol fod yn hunan-gynhaliol.

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd ein Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod nodau lles uchelgeisiol, hirdymor sy'n adlewyrchu'r Gymru rydym am ei gweld yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi iaith Gymraeg sy'n ffynnu wrth wraidd y diffiniad o Gymru gynaliadwy. Bydd hon yn garreg filltir bwysig ar gyfer yr iaith, un a fydd yn tanlinellu ei statws swyddogol ac yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan amlwg o'r agenda ar gyfer dyfodol hirdymor Cymru.

Bydd y cynlluniau lles rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol eu paratoi yn sgil Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ffordd bwysig o sicrhau bod y nod o weld y Gymraeg yn ffynnu yn ystyriaeth ganolog o fewn polisi cyhoeddus yn y dyfodol.

Safonau'r Gymraeg

O'u gweithredu, bydd safonau newydd y Gymraeg yn ysgogi newid. Yn benodol, bydd y safonau hynny sy'n berthnasol i lunio polisïau yn debygol o'i gwneud yn ofynnol i gyrff asesu effaith eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. O dan y safonau hybu, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol hybu'r Gymraeg drwy ystyried mewn ffordd strategol sefyllfa'r iaith yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Bydd y safonau hyn yn bwysig o safbwynt gwneud yn siŵr bod y sefydliadau hynny'n cymryd cyfrifoldeb dros agenda'r Gymraeg yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd gan Gomisiynydd y Gymraeg swyddogaeth reoleiddio bwysig o safbwynt goruchwylio'r broses o weithredu'r safonau. Bydd gennym ninnau fel llywodraeth rôl bwysig o osod y cyfeiriad strategol.

Bydd y safonau hefyd yn gatalydd pwysig ar gyfer gwella sut mae sefydliadau yn ystyried datblygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu. Yn achos awdurdodau lleol, rydym yn disgwyl iddynt gynllunio'n well i sicrhau bod pobl ifanc – sef gweithlu'r awdurdod yn y dyfodol – yn cynnal eu sgiliau Cymraeg o fyd addysg i'r gweithle. Bydd hynny'n gwella gallu'r awdurdod ei hun, yn ogystal â chyflogwyr lleol eraill, i weithio drwy'r Gymraeg yn y dyfodol, ac yn gwneud yn

siŵr bod cyflogwyr a gweithwyr yn cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg. Fel Llywodraeth, rydym ninnau'n benderfynol o ddatblygu polisïau i hybu cyfleoedd i weithio yn Gymraeg yn y sefydliad.

Mae gwella sgiliau Cymraeg gweithlu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn arbennig o bwysig. Dyma un o themâu allweddol ein strategaeth 'Mwy na geiriau', yr ydym yn parhau i'w gweithredu ac y byddwn yn ei hadolygu yn 2015. Maes o law byddwn hefyd yn ymateb i adroddiad diweddar Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn ei hymchwiliad i'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes Gofal Sylfaenol, a gododd nifer o faterion pwysig.

Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg

Mae angen inni wella'n dull o gynllunio'r ddarpariaeth Gymraeg yn y system addysg at ddiben creu siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Er mwyn ymateb i ddiffygion yn y modd yr oedd awdurdodau lleol yn bodloni'r galw gan rieni mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio sut byddant yn darparu ar gyfer y Gymraeg yn y system addysg, ac yn rhoi rôl allweddol i Weinidogion Cymru gymeradwyo Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol. Mae'r pwyslais cynyddol ar gynllunio addysgol yn dechrau dwyn ffrwyth a byddwn yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cyflawni hyn. Mae'n rhaid i ni estyn y gwaith hwn y tu hwnt i ffiniau addysg statudol. Gyda hynny mewn golwg, dros y tair blynedd nesaf mae angen inni wella'r ffordd y mae'r ddarpariaeth Gymraeg mewn addysg cyn-ysgol a gofal plant yn cael ei chynllunio. Mae angen inni adeiladu hefyd ar waith yr hyrwyddwyr dwyieithog ym meysydd addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16 yn gynaliadwy ac yn cael ei datblygu ymhellach, a bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i ddatblygu a ffynnu.

Ers tro byd mae Cymru wedi bod ar flaen y gad yn datblygu modelau trochi ieithyddol. Un o'r dulliau a ddefnyddiwyd yng Ngwynedd, Ynys Môn a Cheredigion fu darparu hyfforddiant dwys yn y Gymraeg i hwyrddyfodiaid, er mwyn caniatáu iddynt drosglwyddo'n ddidrafferth i ysgolion dwyieithog lleol. Rydym yn awyddus i adeiladu ymhellach ar y dull hwn er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac i helpu'r unigolion hynny gyfranogi'n well yn y cymunedau Cymraeg. Byddwn felly yn anelu at ddatblygu gydag awdurdodau lleol rwydwaith mwy cydlynol o ganolfannau ledled Cymru. Bydd prosiectau o'r math yma'n gallu ymgeisio am y gefnogaeth y soniwyd amdani eisoes.

Cynllunio defnydd tir

Rydym yn glir y gall y system cynllunio defnydd tir gyfrannu at yr agenda hon drwy helpu i greu'r amodau cymdeithasol ac economaidd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Cyhoeddwyd TAN 20 diwygiedig gennym ym mis Hydref 2013, sy'n egluro sut y dylai ystyriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg fwydo i mewn i'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu. Bydd y canllawiau i gefnogi'r TAN 20 yn cynorthwyo awdurdodau cynllunio ymhellach. Byddwn yn parhau i archwilio pob cam ymarferol i gryfhau'r Gymraeg yn y system gynllunio. Rydym yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu, a bydd y Prif Weinidog yn ysgrifennu at awdurdodau cynllunio i danlinellu'r neges hon.

Rydym hefyd yn glir bod angen i awdurdodau lleol ystyried y cyswllt anorfod rhwng cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael yn y cymunedau hyn. Mae Adran 1 y ddogfen hon yn cynnwys rhagor o fanylion am raglenni

penodol sydd â'r nod o gryfhau'r cysylltiad rhwng y Gymraeg a datblygu economaidd, ac rydym hefyd yn benderfynol bod ein rhaglenni i gefnogi'r economi, gan gynnwys ein rhaglenni cyllid Ewropeaidd, yn ystyried y Gymraeg. Enghraifft dda o'r angen i sicrhau bod cynllunio ieithyddol wrth wraidd mentrau economaidd yw Rhaglen Ynys Ynni Môn.

Astudiaeth achos – Ynys Ynni Môn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at y prosiect Ynys Ynni Môn er mwyn sicrhau bod buddiannau'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o'r prosiect. Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn gyfarfod â'r holl ddatblygwyr a rhanddeiliaid ym mis Gorffennaf 2013 er mwyn dysgu rhagor am y datblygiadau ac ystyried rhannu gwybodaeth ac arfer gorau. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru wybodaeth allweddol o ganlyniadau Cyfrifiad 2011 yn ystod y cyfarfod hwn, a phwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried effaith unrhyw ddatblygiadau ar y Gymraeg.

Un o'r prif ddatblygiadau ar hyn o bryd yw safle newydd cynhyrchu ynni, a gaiff ei reoli gan Horizon. Bydd Horizon yn cyflwyno adroddiad cwmpasu ar gyfer mesur effaith ieithyddol datblygiad newydd Wylfa, a bydd yn ymgynghori ar y mater yn ystod hydref 2014. Bydd yr adroddiad yn ystyried yr effaith ar gymunedau o safbwynt newydd-ddyfodiaid a chyfleoedd lleol i sicrhau swyddi er mwyn annog pobl ifanc i aros ar Ynys Môn neu i ddychwelyd yno.

Rydym yn cydnabod y bydd angen cefnogaeth ar ein hadrannau i sicrhau newid sylweddol yn Llywodraeth Cymru. Er mwyn hwyluso cyfrifoldeb am bolisi'r Gymraeg ar draws yr adrannau, byddwn yn sefydlu bwrdd prosiect i oruchwylio'r broses o weithredu Strategaeth y Gymraeg a'r datganiad polisi hwn. Bydd Is-adran y Gymraeg yn rhoi rhagor o gefnogaeth i adrannau eraill i sicrhau yr ymgorfforir y Gymraeg yn eu polisïau a'u gweithgareddau; i gynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg; ac i ddatblygu cynlluniau a rhaglenni newydd i gefnogi'r iaith yng nghylchoedd gwaith pob adran.

Bydd angen cefnogaeth debyg hefyd ar awdurdodau lleol ac eraill er mwyn datblygu dull strategol o hybu'r Gymraeg. Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes yn rhoi strategaethau ar waith, neu wrthi'n llunio strategaethau, sy'n ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. I'r perwyl hwn, byddwn yn cyfarfod â phob awdurdod lleol i drafod sut byddant yn mynd i'r afael â'r dasg o ddatblygu strategaethau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau lleol.

3. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Mae'r adran hon yn disgrifio'r modd yr ydym yn adeiladu ar weithgareddau presennol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol o'r cyllid refeniw gwerth £1.2 miliwn dros ddwy flynedd. O ran y cyllid, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r ardaloedd lle y ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac i ardaloedd eraill sydd o bwysigrwydd strategol. Mae angen i ni gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg drwy'r system addysg a'r system hyfforddi er mwyn ategu'r gwaith hwn. Yr her yw troi'r dysgwyr hyn yn siaradwyr.

Ers 2011 rydym wedi:

- ysgwyddo'r cyfrifoldeb am arwain y gwaith o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned
- parhau i ariannu sefydliadau sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynnal adolygiad o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith Lleol a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman-Tawe
- cynnal adolygiadau o Gymraeg i Oedolion ac addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn:

- buddsoddi £1.2 miliwn yn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf (a fydd yn cynnwys £750,000 ar gyfer y Mentrau Iaith) er mwyn:
  - creu cronfa gwerth £300,000 y flwyddyn i hybu arloesi yn yr ardaloedd lle y ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac ardaloedd eraill sydd o bwysigrwydd strategol
  - datblygu gwaith ein partneriaid sy'n hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
  - cryfhau'r gwaith o gefnogi arferion iaith pobl ifanc
  - darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol i weithwyr yn y maes cynllunio ieithyddol
- pwyso a mesur rôl bosibl y Mentrau Iaith o safbwynt cyfeirio ymholiadau at Busnes Cymru
- hwyluso cytundeb cydweithio rhwng y cyrff sy'n hybu a hwyluso'r Gymraeg
- datblygu rhaglen genedlaethol a fydd yn cefnogi teuluoedd i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg
- defnyddio cyfryngau amrywiol a chyfoes i hybu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, gan gael ein harwain gan y bobl ifanc eu hunain
- gweithredu argymhellion yr adolygiad o'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn unol â'r cyfeiriad a nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad
- dechrau'r broses o newid y drefn o ddysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r dystiolaeth a dderbyniom yn ystod Y Gynhadledd Fawr a'r amryw adolygiadau polisi yn tanlinellu pwysigrwydd hyfywedd y Gymraeg yn y gymuned i ddyfodol yr iaith. Roedd y gostyngiad yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg yn siroedd y gogledd a'r gorllewin yng Nghyfrifiad 2011 yn destun pryder. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cymunedau lle mae canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw – ac mae hynny'n flaenoriaeth strategol i ni dros y blynyddoedd nesaf, yn unol ag Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gymunedau Cymraeg.

Ar yr un pryd, mae ardaloedd eraill sydd â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg wedi gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr yn sgil twf mewn addysg Gymraeg a mudo o siroedd y gogledd a'r gorllewin. Byddwn yn parhau i gefnogi ymdrechion i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn yr ardaloedd hyn.

Cydnabyddwn rôl allweddol nifer o'n partneriaid yn y trydydd sector sydd wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hybu a hwyluso'r Gymraeg o fewn y gymuned. Rhaid i'n partneriaid wynebu'r her o wella cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg yng nghyd-destun gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'n partneriaid er mwyn cynyddu a chryfhau eu gwasanaeth a'u dylanwad. Trwy arbed arian o fewn rhannau eraill o'r gyllideb byddwn yn buddsoddi gwerth £1.2 miliwn o gyllid refeniw dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned. Caiff £750,000 o'r cyllid ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r Mentrau Iaith ar draws Cymru. Bydd y cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hybu arloesi mewn ardaloedd lle y ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac mewn ardaloedd eraill sydd o bwysigrwydd strategol.

Rôl y Mentrau Iaith

Mae'n rhaid i'r Mentrau Iaith fod yn rhan annatod o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Un o'r heriau a amlygwyd yn yr adolygiad diweddar o'r Mentrau yw sicrhau cysondeb o ran cyrhaeddiad ymhlith y Mentrau. Tra cheir tystiolaeth bod nifer o Fentrau wedi datblygu eu gallu i ymateb i heriau'r iaith yn eu cymunedau'n sylweddol ers eu sefydlu, nid yw pob Menter wedi llwyddo i ddatblygu i'w llawn botensial. Cred Llywodraeth Cymru fod cyfle i'r Mentrau Iaith gefnogi a rhoi cymorth i'w gilydd, ac mae enghreifftiau o arfer da i'w gweld eisoes. Mae angen i hyn esblygu ymhellach a'i ffurfioli ymhlith y Mentrau er mwyn codi safonau. Er mwyn hwyluso'r gwaith o gryfhau ymdrechion y Mentrau, bydd Llywodraeth Cymru'n buddsoddi cyfran o'r gronfa newydd i gefnogi rhaglen ar gyfer meithrin gallu'r Mentrau. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynnig cyfleoedd i arweinwyr effeithiol fentora eraill. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant a rhaglenni datblygu proffesiynol – darpariaeth y byddwn am ei chynnig i bartneriaid eraill yn y maes cynllunio ieithyddol.

Mae angen i weithgarwch y Mentrau amrywio o un ardal i'r llall oherwydd proffil demograffeg siaradwyr Cymraeg a phroffil yr economi leol. Mae rhai Mentrau wedi canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg tra bo eraill wedi ceisio ymyrryd er mwyn cyflwyno'r Gymraeg i weithgareddau prif-ffrwd. Mewn ambell i achos, mae'r Mentrau wedi camu i fyd mentrau cymdeithasol gan sefydlu is-gwmnïau, tra bo nifer yn contractio gyda chyrff eraill – awdurdodau lleol yn bennaf – i ddarparu gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog ar eu rhan. Ceir awgrym yn adolygiad y Mentrau fod yr amrywiaeth hon – a'r angen dealladwy i'r Mentrau ddod o hyd i ffynonellau cyllid amgen – yn golygu bod y ffocws ar brydiau wedi symud oddi wrth hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Astudiaeth achos – Tafwyl

Ynghyd â chymorth gan Gyngor Caerdydd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid blynyddol ar gyfer Tafwyl drwy'r cynllun grant ar gyfer hybu'r Gymraeg. Gŵyl flynyddol yw Tafwyl a sefydlwyd gan Fenter Caerdydd er mwyn dathlu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Nod yr ŵyl yw sicrhau rhagor o le i'r Gymraeg o fewn y gymuned drwy godi ei phroffil a rhoi cyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion gael blas ar yr iaith a'i defnyddio.

Caiff gŵyl Tafwyl ei chynllunio a'i theilwra'n ofalus er mwyn ymateb i anghenion a dyheadau trigolion Caerdydd. Mae'n cynnig cyfleoedd di-ri yn ystod ei hwythnos, gan gynnwys gweithgareddau ym maes diwylliant, y celfyddydau, cerddoriaeth, hanes a chwaraeon. Daeth 13,769 o bobl i weithgareddau Tafwyl yn ystod 2013. Fel rhan o'r gwaith o werthuso gŵyl 2013 nododd 99.8 y cant o'r oedolion a ymatebodd eu bod yn debygol o ymweld â Tafwyl eto yn y dyfodol a dywedodd 58 y cant eu bod yn fwy balch o'r iaith ar ôl mynychu'r digwyddiad.

Ein nod yw bod yn glir ynghylch yr hyn y disgwyliwn ni i'r Mentrau ei wneud yn gyfnewid am ein cefnogaeth ariannol ninnau. Ein blaenoriaethau ar gyfer y Mentrau yw:

- hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith trigolion, cymdeithasau a sefydliadau lleol
- bod yn gyfnewidfa gwybodaeth sirol a lleol
- adnabod anghenion a chydweithio gyda'r awdurdodau lleol ac yn sgil hynny sicrhau darpariaeth yn unol â strategaethau iaith sirol
- cynnal prosiectau penodol i ateb yr anghenion lleol a, lle bo'n briodol, gefnogi cymunedau penodol.

Trafodwyd rôl y Mentrau Iaith o safbwynt yr economi yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd. Mewn ymateb i hyn byddwn yn ystyried y rôl bosibl ar gyfer Mentrau Iaith o safbwynt cyfeirio ymholiadau at Busnes Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i drafod â'r Mentrau Iaith, gan ystyried y prosiectau peilot yn Nyffryn Teifi er mwyn nodi sut y gallent gyfrannu at ddatblygu economi'r ardal leol.

Mae gan y Mentrau rôl bwysig i'w chwarae, ond nid ydym yn disgwyl iddynt ysgwyddo'r holl faich o fewn cymuned. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ac eraill ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros hybu'r iaith, gan ddwyn ar arbenigedd a phrofiad y Mentrau. Daw hyn yn fwy pwysig pan gaiff awdurdodau lleol eu had-drefnu yn y dyfodol, a byddwn yn gweithio gyda'r Mentrau i'w helpu i arwain a dylanwadu.

Rydym yn disgwyl i gydweithio effeithiol ddigwydd rhwng yr holl bartneriaid sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys y Mentrau Iaith, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr a Chlybiau'r Ffermwyr Ifanc. Ceir tystiolaeth gadarn yn adolygiad y Mentrau bod angen creu eglurder ynghylch rolau'r gwahanol ffigurau amlwg yn y maes hybu iaith, a byddwn yn hwyluso cytundeb cydweithio rhwng y cyrff hynny dros y misoedd nesaf.

Teuluoedd

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd yw un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu dyfodol y Gymraeg. Mae trosglwyddo'r iaith o

genhedlaeth i genhedlaeth, yn ogystal ag addysg, yn flaenoriaeth ac er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg mae angen sicrhau mai'r Gymraeg yw iaith y cartref ar gyfer cymaint o blant â phosibl. Rhoddir sylw i:

- drosglwyddo iaith a chynyddu nifer y teuluoedd lle caiff y Gymraeg ei defnyddio fel y brif iaith
- y defnydd o iaith sy'n cynnwys annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd gan gynnwys mentrau sy'n ceisio cynyddu hyder rhieni/gofalwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd
- gwasanaethau ar gyfer teuluoedd, gan sicrhau bod modd iddynt fanteisio ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg
- cefnogaeth ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy'n anfon eu plant drwy addysg cyfrwng Cymraeg.

Ein prif gynlluniau yn y maes hwn yw Twf, Tyfu gyda'r Gymraeg, a Mae dy Gymraeg di'n Grêt. Twf yw'r cynllun mwyaf yn y maes. Mae'n gynllun arloesol sydd wedi ennill ei blwyf ac sydd ar waith ar draws gogledd a de-orllewin Cymru er mwyn annog rhieni/gofalwyr sy'n siarad Cymraeg i drosglwyddo'r iaith i'w plant. Tyfu gyda'r Gymraeg a Mae dy Gymraeg di'n Grêt yw ein cynlluniau cyfredol i gefnogi rhieni/gofalwyr i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

Credwn ei bod hi'n bwysig sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o lwybr cymorth unigol sy'n hybu eu defnydd nhw, ynghyd â defnydd eu plant, o'r Gymraeg. O'r herwydd, rydym yn awyddus i adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol a'i datblygu'n rhaglen genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein holl gynlluniau ac ymdrechion yn y maes yn cyd-blethu er mwyn cynnig rhaglen a fydd yn cefnogi teuluoedd i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y gwaith o ddatblygu ein dealltwriaeth o dechnegau newid ymddygiad a ddisgrifir ym mhennod pedwar o'r ddogfen hon hefyd yn berthnasol iawn yn y maes hwn.

Plant a phobl ifanc

Mae ffigurau'r Cyfrifiad ers 1991 yn tynnu sylw at bwysigrwydd plant a phobl ifanc i ddyfodol yr iaith. Y cynnydd yn nifer y siaradwyr o oedran ysgol rhwng 5 a 15 oed yw un o ddatblygiadau mwyaf calonogol y genhedlaeth ddiwethaf. Mae'r ffigurau'n dangos cynnydd i'w groesawu yn nifer y bobl ifanc o gefndiroedd di-Gymraeg sy'n dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol. Eto i gyd, y gostyngiad yn nefnydd y grŵp hwn o'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol yw un o'n heriau mwyaf yn awr ac yn y dyfodol.

Er mor gadarnhaol yw'r cynnydd yn y niferoedd sy'n medru'r iaith, nid yw hyn yn cyfateb i'r sawl sy'n ei defnyddio. Amlygir hyn yng nghyd-destun ysgolion Cymraeg a dwyieithog lle mae rhai pobl ifanc yn gyndyn i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Gan hynny, mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn gwbl naturiol ym mhob agwedd ar fywyd plant a phobl ifanc – yn y cartref, yn gymunedol, neu drwy wasanaethau – yn gwbl allweddol.

Gwelwn, felly, bwysigrwydd gweithredu dwys i gefnogi arferion iaith pobl ifanc mewn cyd-destunau anffurfiol. Rydym eisoes yn gweithio i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol mewn amrywiaeth o gyd-destunau gyda chefnogaeth staff ysgol a dysgwyr, a phartneriaid sy'n gweithio yn y gymuned.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y maes hwn a'i ddatblygu i fod yn rhaglen ehangach i gefnogi defnydd iaith plant a phobl ifanc. Ein nod yw sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yr hyder a'r eirfa briodol i allu cymdeithasu yn Gymraeg. Mae rôl yr

awdurdodau lleol ac eraill yn hyn o beth yn cael ei bwysleisio yn ein Strategaeth Ieuenctid. Mae cyfrifoldeb ar nifer o wahanol gyrff i sicrhau bod hynny'n digwydd, a byddwn ni fel llywodraeth yn arwain y gwaith pwysig hwn.

Astudiaeth achos – Ap 'Fy Ardal'

Ar ôl derbyn grant gan gronfa dechnoleg Llywodraeth Cymru datblygodd yr Urdd Ap 'Fy Ardal'. Ap ar gyfer plant a phobl ifanc ydyw a fydd yn eu galluogi i ganfod digwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn eu cymunedau lleol. Y prif nod oedd sicrhau ffordd gyflym, gywir a deinamig i blant a phobl ifanc chwilio am ddigwyddiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn cymunedau ledled Cymru. Mae hefyd wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc rannu eu profiadau o ddigwyddiadau a gweithgareddau drwy flogiau a chynyrchiadau fideo i'w cynnwys ar yr Ap.

Mae llawer o bartneriaid allweddol yr Urdd wedi manteisio ar y cyfle hwn i ddefnyddio'r Ap fel llwyfan i hybu eu digwyddiadau a'u gweithgareddau o fewn cymunedau ledled Cymru. Mae bron i 2,000 o blant a phobl ifanc wedi lawrlwytho'r Ap hyd yma, ac mae dros 3,000 o weithgareddau wedi'u hyrwyddo.

Yn ogystal â chefnogi defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg, mae'r Urdd wedi bod yn cynnal prosiectau pwysig sydd yn targedu pobl ifanc sydd mewn perygl o ddatgysylltu eu hunain o addysg, sydd heb gynllun gyrfa neu sydd wedi'u cyfeirio at gymorth ychwanegol gan Gyrfa Cymru neu'r ysgol. Mae'r prosiect 'Gweithio yn Gymraeg' yn targedu pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed er mwyn sicrhau eu bod yn gallu elwa i'r eithaf ar y Gymraeg wrth ddod yn rhan o'r byd gwaith. Mae hybu'r Gymraeg fel sgil economaidd yn waith yr ydym eisiau ei weld yn datblygu ymhellach a'i gysylltu â holl gynlluniau cyflogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc yn y dyfodol.

Rôl y system addysg

Credwn hefyd fod cyfle i wella cydweithio rhwng y cyrff sy'n hybu'r Gymraeg a sefydliadau addysgol, gan gynnwys darparwyr Cymraeg i Oedolion. Ar hyn o bryd mae tua 18,000 o ddysgwyr yn dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau bob blwyddyn. Yr her yw sicrhau bod y dysgwyr hyn yn defnyddio'r iaith. Roedd yr adolygiad o faes Cymraeg i Oedolion yn cynnwys nifer o argymhellion i wella a datblygu'r ddarpariaeth, a chyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn ym mis Rhagfyr 2013. Yng nghyd-destun y datganiad polisi hwn, byddwn yn datblygu dulliau amrywiol o ddod â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ynghyd trwy weithio'n agosach gyda phartneriaid allweddol; adeiladu ar lwyddiant cyrsiau Cymraeg i'r Teulu; a gweithio gyda chyflogwyr i wella'r ddarpariaeth yn y gweithle.

Mae'n rhaid i'r system gyfredol o addysgu a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg newid. Mae'r Gymraeg yn rhan werthfawr o'n hunaniaeth a'n diwylliant, ac mae'n bwysig bod holl ddysgwyr Cymru – p'un a ydynt yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol cyfrwng Saesneg – yn cael cefnogaeth i siarad y Gymraeg yn hyderus. Mae adroddiad y grŵp a fu'n adolygu darpariaeth Cymraeg ail iaith yn tynnu sylw at nifer o faterion o safbwynt y dull cyfredol o addysgu, a chyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ym mis Mai eleni. Fodd bynnag, gan fod yr Athro Graham Donaldson wrthi'n cynnal adolygiad ehangach o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru, bydd unrhyw newidiadau o ran y cwricwlwm yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad ehangach hwn.

4. Newid ymddygiad ieithyddol

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o bwyslais wedi ei roi ar adeiladu'r capasiti ar gyfer darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, boed yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Mae hyn i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, i raddau cynyddol mae angen sicrhau bod ein hymdrechion i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hategu gan ymdrechion i annog defnydd o'r gwasanaethau hynny a'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang.

Er mwyn newid patrymau ymddygiad ieithyddol mae angen i ni newid y ffordd rydym yn siarad ac yn teimlo am yr iaith. Mae angen i'n dulliau fod yn fwy positif. Yn rhy aml mae'r ddadl gyhoeddus ynghylch y Gymraeg yn canolbwyntio ar yr heriau, y syniad bod yr iaith yn cilio, a'r rhwystrau tuag at newid – yn lle hynny mae angen meithrin ymdeimlad o gyfle, a helpu pobl i ddewis defnyddio'r Gymraeg bob dydd. I helpu gyda'r newid hwn mewn diwylliant, byddwn yn lansio brand newydd er mwyn datblygu negeseuon cyson ar draws ein mentrau polisi o ran y Gymraeg, ac rydym am i gyrff eraill gofleidio'r brand hwn hefyd. Byddwn hefyd yn dysgu o dechnegau marchnata cymdeithasol a newid ymddygiad priodol eraill, a'u defnyddio er lles y Gymraeg.

Ers 2011, rydym wedi:

- comisiynu gwaith ymchwil, ar y cyd ag S4C a BBC Cymru, a oedd yn edrych ar faint mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd
- lansio ymgyrch farchnata i hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithog
- creu brand newydd i ddatblygu negeseuon cyson ar draws ein mentrau polisi o ran y Gymraeg, y bydd modd i fusnesau a phartneriaid eu defnyddio i hyrwyddo'r Gymraeg.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn:

- datblygu cyfres o ymgyrchoedd gyda'r nod o newid ymddygiad ieithyddol a fydd yn defnyddio arbenigedd marchnata cymdeithasol, gan ddechrau gydag ymgyrch '**Y Pethau Bychain**'
- lansio gwefan a fydd yn hyrwyddo a hysbysebu cyfleoedd i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd ar draws Cymru
- law yn llaw â'r wefan creu, hwyluso a rheoli system i gynnal perthynas â chwsmeriaid, drwy gydweithio â'n partneriaid, a fydd yn galluogi unigolion i gofrestru i dderbyn gwybodaeth wedi'i deilwra ar eu cyfer am ddigwyddiadau a gwasanaethau Cymraeg, a galluogi darparwyr busnesau i dargedu negeseuon allweddol at unigolion ar fanteision a chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg
- hyrwyddo'r defnydd o .cymru a ymhlith busnesau
- defnyddio technegau marchnata cymdeithasol mewn ymyriadau ieithyddol sy'n bodoli eisoes ac a ddatblygir yn y dyfodol

- sicrhau bod pawb sy'n derbyn ein grantiau, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd ohoni, hefyd yn cymhwyso'r technegau hyn lle bo'n briodol ac yn datblygu negeseuon cyson wrth ymgysylltu â'r cyhoedd
- cynnal gwaith ymchwil pellach er mwyn cael gwybod pryd ym mywyd person y mae'r technegau hyn yn briodol a rhoi canllawiau i sefydliadau er mwyn iddynt newid eu harferion o ran y Gymraeg.

Ein nod fel llywodraeth yw cyrraedd sefyllfa lle bydd defnyddio'r Gymraeg yn elfen normal ym mywyd bob dydd, fel bod cynnyrch a gwasanaethau'n cael eu cynnig yn rhagweithiol yn Gymraeg, a lle bydd pobl yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. I gyflawni hynny, rhaid dysgu gwersi o feysydd polisi eraill a defnyddio'r technegau gorau a mwyaf priodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso newid ymddygiad ar draws sawl maes polisi gan gynnwys:

- lleihau gwastraff drwy gyflwyno tâl am fagiau plastig mewn siopau
- gwahardd smygu mewn mannau cyhoeddus
- cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru, er mwyn cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael at ddibenion trawsblannu.

Nod yr adran hon yw archwilio i ba raddau y gellir defnyddio sylfeini rhai o'r technegau newid ymddygiad hyn ym myd polisi iaith yng Nghymru.

Fel man cychwyn, mae angen inni barhau i roi gwybodaeth am gyfleoedd i fyw yn Gymraeg, ei dysgu a'i mwynhau, a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyn. Byddwn yn datblygu porthol ar-lein i gyflawni hyn, a fydd yn adnodd pwysig a defnyddiol. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli na fydd rhoi gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth yn unig yn llwyddo i newid arferion o reidrwydd.

Mae nifer o ffactorau yn llywio ein hymddygiad a gall yr ysgogiad tu ôl i ymddygiad ieithyddol fod yn gymhleth. Rydym yn dysgu normau ymddygiad o oedran cynnar iawn, ac mae dewis pa iaith i'w defnyddio mewn sefyllfa benodol yn rhan greiddiol o'r normau hyn.

Drwy gydol ein bywydau, rydym yn cymryd 'ciws' isymwybodol a mwy amlwg gan bobl eraill ynghylch lle, pryd a sut y dylem ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn asesu pob sefyllfa ieithyddol mewn amrantiad, yn unol â nifer o ffactorau sy'n gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae'r model syml hwn yn rhoi darlun o'r ffactorau y gall unigolyn fod yn ystyried wrth benderfynu gofyn am wasanaeth Cymraeg ai peidio.

- A yw arwyddion a 'naws' gyffredinol ehangach y sefydliad yn Gymraeg/ddwyieithog?
- A oes deunyddiau 'Iaith Gwaith' i'w gweld ar hyd y sefydliad?
- A ydw i'n teimlo'n ddigon hyderus yn fy Nghymraeg fy hun yn y maes hwn?
- A fydd y person y tu ôl i'r cownter yn cael ei bechu os siaradaf Gymraeg yn gyntaf?
- Beth yw enw'r person ar ei fathodyn?
- Beth yw fy nghanfyddiad o bobl sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg?

Mae dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol yn fwy cymhleth na dewis personol unigolyn. Wrth ddefnyddio peiriant twll-yn-y-wal neu wefan, er enghraifft, mae tystiolaeth yn dangos bod newid yr iaith gyntaf a welir gan ddefnyddiwr yn cynyddu defnydd yr iaith honno. Mae angen i ni weld ym mha sefyllfaoedd y gellid defnyddio'r enghreifftiau syml hyn i hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Byddwn yn dechrau drwy ddatblygu cyfres o ymgyrchoedd gyda'r nod o newid ymddygiad ieithyddol a fydd yn defnyddio arbenigedd marchnata cymdeithasol, gan ddechrau gydag ymgyrch '**Y Pethau Bychain**'. Bydd yr ymgyrch yn tynnu sylw at sut gall pethau bach bob dydd wneud gwahaniaeth, a'r nod yw ysgogi unigolion i fod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau eu hunain.

Astudiaeth achos – ymgyrch Dewis: Choice

Un o'r prif negeseuon glywsom ni fel rhan o'r Gynhadledd Fawr oedd marchnata'r Gymraeg yn well. Ar sail hyn, ac yn sgil casgliadau sawl adolygiad a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn, mae strategaeth farchnata yn cael ei datblygu sy'n ymgorffori amcanion Strategaeth y Gymraeg â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Ym mis Tachwedd 2013, lansiwyd ymgyrch i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg – Dewis: Choice.

Prif nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg a dwyieithog a chyfeirio unigolion i'r wybodaeth berthnasol i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant. Hyd yma, defnyddiwyd dulliau amrywiol yn yr ymgyrch, gan gynnwys negeseuon ar yr awyr, ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol, a gweithgareddau mewn pedair ardal ledled Cymru – y Rhyl, Llanelli, Merthyr a Chaerffili.

Er mwyn adeiladu ar neges yr ymgyrch, mae gwaith ar y gweill ar y cyd ag awdurdodau lleol i ystyried sut maent yn cyflwyno gwybodaeth i rieni/gofalwyr am yr addysg Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael.

Bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y defnydd o arbenigedd, ymchwil a gwyddoniaeth yn y maes hwn i yrru agenda bolisi'r iaith Gymraeg yn ei blaen. Ni fydd y dull hwn yn cynnig un ateb ar gyfer yr holl heriau sydd angen mynd i'r afael â hwy o safbwynt cynllunio ieithyddol yng Nghymru, ond credwn fod ganddo ran allweddol i chwarae.

Symud y polisi yn ei flaen

Does dim un ateb neu ddatrysiad i sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, credwn drwy'r ymyraethau a amlinellir yn y polisi hwn y gallwn wneud gwahaniaeth.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf. Byddwn hefyd yn parhau i gyhoeddi cynlluniau gweithredu blynyddol i ddangos ein cynnydd.

Bydd gweithrediad ein strategaeth yn cael ei fonitro gan fwrdd prosiect traws-adrannol.

Wrth i ni fynd ati i weithredu'r polisi hwn, byddwn yn parhau i geisio cyngor ac arbenigedd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb clir i yrru agenda bolisi eang yn ei blaen, a derbyniwn yr her â brwdfrydedd. Ond ni ddylai unrhyw un sy'n poeni am yr iaith adael y cyfan i'r llywodraeth. Gall pawb sy'n siarad Cymraeg neu sydd ag ewyllys da tuag at yr iaith chwarae rhan yn y gwaith o'i hyrwyddo ymhob agwedd ar fywyd. Rydym yn eich gwahodd i wneud hynny, ac i gynorthwyo yn y gwaith o lywio dyfodol yr iaith yn y ganrif hon.